



Canllaw i ymwelwyr

Rydym yn dilyn gweithdrefnau hylendid a rheoli haint cadarn yng Nghylch Meithrin Y Felinheli. Gofynnwn i chi ddarllen a sicrhau eich bod yn deall y rheolai isod **cyn** i chi ymweld â'r safle.

Os oes gennych gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu ag Arweinydd y Cylch ar 07735 749799 neu post@cylchmeithrinfelinheli.org.

1. Os ydych wedi dioddef o symptomau Covid 19 dros y 14 diwrnod diwethaf, neu wedi bod tramor dros y 14 diwethaf, gofynnwn i chi ail drefnu'ch apwyntiad ymhen 10 diwrnod.
2. Fe fydd drws y Cylch/ Meithrinfa ar glo, gofynnwn i chi ganu'r gloch pan fyddwch yn cyrraedd a daw rhywun allan i gwrdd â chi
3. Gofynnwn i chi wisgo mwgwd tra'ch bod yn y Cylch ar bob adeg.
4. Fe fyddwn yn darparu bocs caeedig ar gyfer eich eiddo a'ch cot gan ei gadw'n ddiogel mewn ystafell gaeedig
5. Fe fyddwn yn gofyn i chi olchi eich dwylo gyda dŵr a sebon neu gydag hylif diheintio wrth gyrraedd y Cylch.
6. Yn unol â'r rheolai arferol, byddwn yn arwyddo eich presenoldeb yn ein Llyfr Ymwelwyr.
7. Byddwn yn casglu'ch manylion personol at ddiben Profi ac Orlhain gan gadw rhain am gyfnod o 21 diwrnod
8. Byddwn yn eich tywys i'r ystafell berthnasol a gofynnwn i chi gadw pellter o 2 fetr o'r staff ar bob adeg.
9. Gofynnwn i chi beidio â chyffwrdd a dim yn y Cylch e.e plant, adnoddau
10. Byddwn yn caniatâu i chi ddefnyddio llyfr neu ffeil a gofynnwn i chi ddefnyddio beiro eich hun tra yn Cylch
11. Os byddwch yn defnyddio'r tai bach, gofynnwn i chi ddiheintio'r tŷ bach, y sinc/ tapiau y golau a dolen y drws ar eich hŏl gan hefyd dilyn gweithdrefnau golchi dwylo trylwyr.
12. Ni fyddwn yn darparu paned na dŵr yn ystod eich ymweliad.
13. Os byddwch yn datblygu symptomau ar ôl eich ymweliad neu yn derbyn prawf positif am Covid19 gofynnwn i chi hysbysu'r Cylch cyn gynted â phosib.